**LC171**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol manwl i brif Reoliadau 1998 sy'n cynnwys dulliau rheoli mewn perthynas â deunyddiau plastig ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd.

Mae'r diwygiadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb ddiwygiol y Comisiwn. Gwnaed diwygiadau i'r un perwyl ar gyfer Lloegr a'r Alban (OS 2000/3162 ac OSA 2000/431).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan fod y Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau testunol i reoliadau sydd yn Saesneg yn unig, mae'r mewnosodiadau testunol a nodir yn y testun Cymraeg, o angenrheidrwydd, yn Saesneg.

Er hynny, cafodd y pwynt hwn ei anwybyddu yn Rheoliad 3, pan ddylai'r geiriau "fel y'u cywirwyd" fod yn Saesneg, hy. "as corrected".

Er mai mân wall drafftio yw hwn bydd angen ei gywiro, a byddai'n addas ei gywiro mewn Memorandwm Cywiriadau o dan RhS 22.13.

Ar yr amod bod y cywiriad hwn yn cael ei wneud, mae'r Pwyllgor yn fodlon cyflwyno adroddiad nad oes unrhyw faterion yn codi y mae angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan RhS 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**

Mae angen cromfach o flaen “regulation” ym mharagraff 2(d).

**Dyddiad gwneud**

Sylwyd bod dyddiad gwneud ar 20 Mawrth wedi’i fewnosod ar frig y rheoliadau ac yn y cymal llofnodi.

Tybir mai hwn yw’r dyddiad gwneud a ragwelir. Yn amlwg, bydd angen newid hwn os bydd y diwrnod gwneud mewn gwirionedd, am ba reswm bynnag, yn wahanol.

**Mick Bates A.M.**
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfau

27 Chwefror 2001